

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

COFNOD O GYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWIYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB /YN RHITHIOL DRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD MERCHER, 15 MAI 2024 AM 16:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd – W Kendall – Cadeirydd/Maer

A R Berrow
N Clarke
S Easterbrook
J Gebbie
D T Harrison
M Jones
J E Pratt
A J Williams
E D Winstanley

F D Bletsoe
R J Collins
M J Evans
R M Granville
M L Hughes
M J Kearn
R J Smith
H M Williams

S J Bletsoe
H J David
N Farr
H Griffiths
D M Hughes
T Wood
J C Spanswick
I Williams

E L P Caparros
P Davies
P Ford
GH Haines
M R John
R L Penhale-Thomas
J H Tildesley MBE
M J Williams

Yn Bresennol yn Rhithiol:

S Aspey
W R Goode
M Lewis
G Walter

H T Bennett
S J Griffiths
J Llewellyn-Hopkins
A Wathan

J P D Blundell
RM James
I M Spiller
R Williams

C L C Davies
P W Jenkins
T Thomas

Swyddogion:

Mark Galvin
Laura Griffiths
Lindsay Harvey
Rachel Keepins

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

Carys Lord
Claire Marchant
Janine Nightingale
Michael Pitman
Alex Rawlin
Mark Shephard
Kelly Watson

Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid
Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau
Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd
Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus
Prif Weithredwr
Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol

15. Ymddiheuriadau am absenoldebau

Penderfyniad	Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cyngorwyr Alex Ulberini-Williams a Colin Davies
Dyddiad y Penderfyniad	Ni wnaed penderfyniad

16. Datganiadau o Fuddiant

Penderfyniad	Datganwyd y datganiadau o fuddiant personol canlynol:- Y Cyngorydd S Bletsoe - eitem 8 ar yr Agenda Y Cyngorydd M Williams - eitem 8 ar yr Agenda Y Cyngorydd I Williams - eitem 8 ar yr Agenda Y Cyngorydd Amanda Williams - eitem 8 ar yr Agenda
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024

17. I dderbyn cyhoeddiadau gan y Maer, Y Cyngorydd W Kendall

Penderfyniad	Traddododd y Maer araith ymadawol yn cadarnhau sut mae ei flwyddyn dros y 12 mis diwethaf fel Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod mor arbennig iddo. Rhoddodd amlinelliad o rai o'r digwyddiadau y bu iddo eu mynychu yn ei rôl a pha chymaint o foddhad roedd y rhain wedi ei roi iddo ef a'i Gymhares. Bu i'r Maer hefyd ddiolch am y gefnogaeth a dderbyniodd gan holl aelodau a staff Cyngor
--------------	--

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

	<p>Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn arbennig felly rhai yn y Gwasanaethau Democrataidd.</p> <p>Cymeradwywyd ef gan y Cynghorwyr Spanswick, Amanda Williams a Ross Penhale-Thomas fel Arweinwyr Grŵp y 3 grŵp gwleidyddol, am y rhan ragweithiol a chwaraeodd yn ei rôl fel maer yn 2023-2024.</p>
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024

18. Ethol y Maer ar gyfer y cyfnod hyd at fid Mai 2025 yn unol ag Adran 23 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972

Penderfyniad	<p><u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylid ethol y Cynghorydd Heather Griffiths yn Faer ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod, hyd at fis Mai 2025.</p> <p>Cadarnhaodd y Cynghorydd Griffiths mai ei Chymar fyddai David Griffiths</p>
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024

19. Ethol y Dirprwy Faer am y cyfnod hyd at fis Mai 2025 yn unol ag Adran 24 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972

Penderfyniad	<p><u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cynghorydd Huw David gael ei ethol fel Dirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod, hyd at fis Mai 2025.</p> <p>Cadarnhaodd y Cynghorydd David na fyddai Cymar ganddo.</p>
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024

20. Ethol Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

Penderfyniad	<p>Cafwyd dau enwebiad Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod 2024-25, sef y Cynghorydd JC Spanswick a'r Cynghorydd R Penhale-Thomas.</p> <p>Cafwyd pleidlais felly ar ethol yr Arweinydd, gyda'r canlyniad fel a ganlyn:</p> <table data-bbox="651 395 2047 598"><thead><tr><th data-bbox="651 395 1093 432"><u>Councillor Spanswick</u></th><th data-bbox="1099 395 1541 432"><u>Councillor Penhale-Thomas</u></th><th data-bbox="1547 395 2047 432"><u>Ymataliadau</u></th></tr></thead><tbody><tr><td data-bbox="651 464 1093 501">29</td><td data-bbox="1099 464 1541 501">20</td><td data-bbox="1547 464 2047 501">0</td></tr></tbody></table> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Ethol y Cynghorydd J C Spanswick yn Arweinydd ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod, hyd at fis Mai 2025.</p> <p>Mynegodd yr Arweinydd ei ddiolchgarwch i'r Aelodau am yr hyder a roddwyd ynddo i fod yn Arweinydd newydd yr Awdurdod a sicrhodd yr Aelodau y byddai'n cymryd y rôl glodfawr hon wirioneddol o ddifrif er mwyn gwneud cymaint ag y gallai dros Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r etholwyr oedd yn preswyllo o fewn ei gymunedau. Ychwanegodd ei fod yn gobeithio y byddai pob aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn uno yn yr her hon.</p> <p>Talodd y Cynghorydd Spanswick deyrnged i'r Arweinydd oedd yn ymadael, y Cynghorydd H J David, yr oedd ganddo gymaint o barch tuag ato. Ychwanegodd pe bai'n gallu dilyn yn ôl troed y Cynghorydd David a chefnogi'r awdurdod lleol fel yr oedd ef wedi'i wneud mor wych dros yr 8 mlynedd ddiwethaf, yna byddai'n ystyried ei rôl i fod yn un llwyddiannus. Ychwanegodd, fodd bynnag, na fyddai dilyn y Cynghorydd David yn rhywbeth hawdd i'w wneud o gwbl.</p>	<u>Councillor Spanswick</u>	<u>Councillor Penhale-Thomas</u>	<u>Ymataliadau</u>	29	20	0
<u>Councillor Spanswick</u>	<u>Councillor Penhale-Thomas</u>	<u>Ymataliadau</u>					
29	20	0					
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024						

21. Y dylai'r arweinydd i hysbysu'r Cyngor ynghylch yr Aelodau oedd i gael eu penodi i'r Cabinet gan gynnwys portffolio'r Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet

Penderfyniad	Rhoddodd yr Arweinydd wybod y byddai ei Gabinet yn cynnwys yr Aelodau canlynol a fyddai'n dal eu portffolio fel y nodwyd:
--------------	---

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

	<p>Y Cynghorydd J Gebbie - Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles</p> <p>Y Cynghorydd P Davies - Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Amgylchedd</p> <p>Y Cynghorydd M Jones - Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid</p> <p>Y Cynghorydd N Farr - Aelod Cabinet dros Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai</p> <p>Y Cynghorydd H Williams - Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad</p> <p>Y Cynghorydd M Evans a'r Cynghorydd E Caparros (rôl ar y cyd) - Aelod Cabinet Adnoddau</p>
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024

22. Penodiadau i Bwyllgorau'r Cyngor a Chyrff Eraill y Cyngor

Penderfyniad	<p>Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, at bwrrpas ceisio cymeradwyaeth gan y Cyngor ar gyfer penodi Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Phwyllgorau, Is-bwyllgorau, Paneli a chyrff eraill o'r fath mae'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol, er mwyn delio gyda materion sydd heb fod wedi eu neilltuo i'r Cyngor llawn nac ychwaith yn disgyn o fewn y pwyllgor gweithredol.</p> <p>Roedd yr adroddiad yn atodi'r Atodiadau cefnogol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Rôl, cylch gorchwyl a ffwythiannau Pwyllgorau a Chyrff eraill y Cyngor – Atodiad 1;• Cydbwysedd gwleidyddol arfaethedig Pwyllgorau, ayyb – Atodiad 2• Strwythur arfaethedig y Pwyllgor – Atodiad 3 <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cyngor:</p> <p>(1) Benodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Phwyllgorau eraill o'r fath y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol er mwyn delio gyda materion sydd heb fod dan ofal y Cyngor nac ychwaith yn disgyn o fewn cylch gorchwyl gweithredol;</p> <p>(2) Benderfynu ar faint a chylch gorchwyl y Pwyllgorau hynny fel y'i gosodir yn Atodiad 1 yr adroddiad;</p> <p>(3) Penderfynu ar faint o seddi a neilltuir i grwpiau gwleidyddol yn unol â rheolau cydbwysedd</p>
--------------	--

	<p>gwleidyddol a osodir yn Atodiad 2 yr adroddiad;</p> <p>(4) Nodi pa grwpiau gwleidyddol oedd yn cael eu cynrychioli ar y Cyngor oedd â'r hawl i wneud pa apwyntiadau Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu;</p> <p>(5) Dderbyn enwebiadau a Chynghorwyr a benodwyd i wasanaethu ar bob un o'r Pwyllgorau, Paneli a chyrrff eraill a ddangosir isod:-</p> <ul style="list-style-type: none">• Y Panel Apeliadau• Penodiadau i'r Pwyllgor• Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu• Rheolwr Gwasanaethau Democraidd• Pwyllgor Rheoli Datblygiadau• Pwyllgor Trwyddedu• Pwyllgor Deddf Drwyddedu 2003• Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned• Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 1• Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 2• Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 3• Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol <p>(6) Derbyd enwebiadau a phenodi Cadeiryddion ar Is-gadeiryddion y Pwyllgorau, Paneli a chyrrff eraill (fel y nodwyd), gan nodi y byddai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod cyntaf oedd wedi'i drefnu, a hynny o blith Aelodau Lleyg ac yn yr un modd y byddai Cadeirydd yn cael ei benodi yn y cyfarfod cyntaf a drefnwyd o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol:</p> <p>Panel Apeliadau – Cadeirydd – Y Cynghorydd H Bennett a'r Is-gadeirydd – Y Cynghorydd W Kendall (y naill a'r llall yn ddiwrthwynebiad) Pwyllgor Penodiadau - Cadeirydd - Y Cynghorydd J C Spanswick a'r Is-gadeirydd - Y Cynghorydd J Gebbie (y naill a'r llall yn ddiwrthwynebiad) Y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd - Cadeirydd Y Cynghorydd T Thomas (yn ddiwrthwynebiad) Pwyllgor Rheoli Datblygu - Cadeirydd R M Granville ac Is-gadeirydd – Y Cynghorydd S Griffiths (y naill a'r llall yn ddiwrthwynebiad)</p>
--	--

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

	<p>Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Drwyddedu 2003 - Cadeirydd - Y Cynghorydd M Lewis a'r Is-gadeirydd Y Cynghorydd R Williams (y naill a'r llall yn ddiwrthwynebiad) Fforwm Cyngor Tref a Chymuned - Cadeirydd - Y Cynghorydd J C Spanswick a'r Is-gadeirydd - Y Cynghorydd J Gebbie (y naill a'r llall yn ddiwrthwynebiad).</p> <p>(7) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Craffu 1 - Y Cynghorydd Alex Williams (yn ddiwrthwynebiad)• Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Craffu 2 - Y Cynghorydd F Blestoe (yn ddiwrthwynebiad)• Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Craffu 3 - Y Cynghorydd JP Blundell (yn ddiwrthwynebiad) <p>(8) Bod yr argymhelliad ar gyfer cyfarfodydd penodol i ddod yn gyfan gwbl rithiol yn ddiodyn fel yr amlinellir ym mharagraff 3.11.4 o'r adroddiad i gael ei ddiddymu, gan nad oedd y Cyngor yn cefnogi hyn.</p>
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024

23. Rhaglen Arfaethedig Cyfarfodydd Arferol y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor

Penderfyniad	<p>Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, at bwrpas cynnig rhaglen o gyfarfodydd arferol o'r Cyngor ac o Bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Mai 2024 - Ebrill 2025 i'w cymeradwyo (Atodiad 1 o'r adroddiad) ac i nodi'r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn Gyngor Mai 2025 - Ebrill 2026 (yn Atodiad 2).</p> <p>Dywedodd bod cymeradwyo'r rhaglen o gyfarfodydd arferol y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor yn ofynnol yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.</p> <p>Cadarnhaodd y Swyddog Monitro, er mwyn cynorthwyo gyda chynlluniau ar gyfer y dyfodol, bod rhaglen ddrafft o gyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn Gyngor 2024/25 wedi ei hatodi yn Atodiad 2 yr adroddiad ar gyfer ei nodi. Gallai'r rhaglen fod yn destun rhai diwygiadau pellach cyn iddi gael ei chymeradwyo yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor y flwyddyn nesaf.</p> <p>Nododd un Aelod nad oedd unrhyw gyfarfod o'r Cyngor wedi'i drefnu ar gyfer Rhagfyr 2024 ac awgrymodd</p>
--------------	--

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

	<p>er mwyn gallu cynnal unrhyw fusnes awdurdod lleol oedd yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn ar gyfer y mis penodol hwnnw, y dylid rhoi ystyriaeth i drefnu cyfarfod ym mis Rhagfyr. I'r perwyl hwn fe wnaed cynnig a chafodd hwnnw ei eilio yn y man.</p> <p>Yna cafwyd pleidlais ar y cynnig hwn, gyda'r canlyniad fel a ganlyn:</p> <table><thead><tr><th><u>O blaid</u> (cyfarfod o'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2024)</th><th><u>Yn erbyn</u></th><th><u>Ymatal</u></th></tr></thead><tbody><tr><td>12</td><td>29</td><td>7</td></tr></tbody></table> <p>Gan hynny, ni chafodd y cynnig ei basio.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none">a. Gymeradwyo'r rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2024/25 fel y'i nodwyd ym mharagraff 4.1 yr adroddiad;b. Cymeradwyo'r rhaglen arfaethedig o Bwyllgorau'r Cyngor ar gyfer yr un cyfnod y'i nodwyd ym mharagraff 1 yr adroddiad;c. Nodi rhaglen ddrafft y cyfarfodydd o'r Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2025/26 a nodwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad;ch. Nodi dyddiadau arfaethedig y Cabinet, unrhyw Bwyllgorau'r Cabinet a Chydbwyllgor Amlogfa Llangrallo a nodwyd yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad hwn, er gwybodaeth.	<u>O blaid</u> (cyfarfod o'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2024)	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>	12	29	7
<u>O blaid</u> (cyfarfod o'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2024)	<u>Yn erbyn</u>	<u>Ymatal</u>					
12	29	7					
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024						

24. Cynrychiolaeth ar Gyrrff Allanol a Phwyllgorau eraill

Penderfyniad	Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, at bwrpas sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer penodi Aelodau i Gydbwyllgor De Ddwyrain Cymru - Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, Panel Heddlu a Throsedd
--------------	--

	<p>De Cymru, Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru ac Is-bwyllgor Cydbwyllgor Corfforaethol Llywodraethu ac Archwilio De Ddwyrain Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad yn Atodiad 1, ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod, hyd at fis Mai 2025.</p> <p>Gwnaed yr enwebiadau canlynol i'r uchod, a'u heilio yn y man yn ddiwrthwynebiad. Gan hynny</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u></p> <ul style="list-style-type: none">(1) Bod Y Cynghorydd S Griffiths i gael ei benodi yn aelod o Gydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru - Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu, gyda'r Cynghorydd J P Blundell yn cael ei benodi'n Ddirprwy Aelod.(2) Bod Y Cynghorydd J Llewellyn-Hopkins i gael ei benodi'n aelod o Banel Heddlu De Cymru a Throsedd.(3) Bod Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygiad (Y Cynghorydd R M Granville) i'w benodi fel aelod o Grŵp Cynllunio Strategol De Ddwyrain Cymru.(4) Bod Y Cynghorydd R Goode i gael ei benodi yn aelod o Gydbwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru - Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024

25. Adolygiad o'r Cyfansoddiad

Penderfyniad	<p>Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, fel bod y Cyngor yn gallu nodi'r argymhellion gan yr Aelod a wnaed mewn perthynas â diwygiadau Cyfansoddiadol ac i gymeradwyo ei hargymhellion, ac i gymeradwyo ymhellach ddiwygiadau Cyfansoddiadol er mwyn adlewyrchu ac ymateb i rai newidiadau deddfwriaethol.</p> <p>Fel y cyfeirir ato ym mharagraffau 2.5 a 2.6 yr adroddiad hwn, argymhellwyd bod Cyfansoddiad y Cyngor angen ei ddiwygio er mwyn ffurfioli sefydlu'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (SAC) ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, yn ogystal â newidiadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB).</p> <p>Cynigwyd ymhellach y dylai'r Cyngor ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud unrhyw ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad o ganlyniad i ffurfioli trefniadau craffu ar gyfer y bwrdd CSP Rhanbarthol i gael oedd i gael</p>
--------------	---

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

	<p>eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor er gwybodaeth.</p> <p>Nododd aelod o baragraff 3.4 yr adroddiad, nad oedd aelodaeth arfaethedig o SACRE/SAC yn cynnwys cynrychiolaeth o'r ffydd Iddewig.</p> <p>Datganodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc bod aelodaeth arfaethedig ei gorff wedi cael ei gadarnhau gan SACRE a'r Rhanbarth, fodd bynnag, byddai'n codi'r pwynt hwn gyda hwy oddi allan i'r cyfarfod.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Y dylai'r Cyngor:</p> <ol style="list-style-type: none">1. Nodi'r cynigion a roddwyd ymlaen gan yr Aelodau ac ymatebion y Swyddog Monitro yn Atodiad 1;2. Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cyfansoddiad fel y'u hamlinellir ym mharagraff 3.2;3. Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cyfansoddiad sy'n ofynnol ar gyfer SACRE a'r PSB fel yr amlinellir hwy ym mharagraffau 3.4, 3.5 ac Atodiad 2, yn ddibynnol ar yr ymholiad yn y paragraff olaf uchod cyn ymchwilio ymhellach i'r penderfyniad;4. Awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro er mwyn gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad a allai fod yn ofynnol oherwydd ffurfioli craffu ar gyfer Bwrdd Rhanbarthol y CSP gydag unrhyw ddiwygiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor er gwybodaeth.
Dyddiad y Penderfyniad	15 Mai 2024

26. Arwisgo Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2024/2025

Penderfyniad	<p>Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i gymeradwyo enwebu'r Cynghorydd Heather Griffiths yn Faer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2024/25, gwahoddwyd Y Cynghorydd Griffiths gan y Maer oedd yn ymadael i dderbyn Swydd y Maer yn swyddogol. Derbyniodd y Cynghorydd Griffiths y cynnig o swydd y Maer ar lafar gan adrodd y llw canlynol.</p> <p>"Yr wyf i Heather Griffiths yn tyngu y byddaf yn driw ac yn dangos gwir deyrngarwch i Ei Mawrhydi y</p>
--------------	---

CYNGOR - DYDD MERCHER, 15 MAI 2024

	<p>Brenin, Siarl y Trydydd."</p> <p>Estynnodd Y Cynghorydd William Kendall ei longyfarchiadau i'r Maer newydd.</p> <p>Cyhoeddodd Y Cynghorydd Kendall yn ogystal y byddai Maer yr Ifanc presennol, Ellie O'Connell a'r Dirprwy Faer yr Ifanc, Daisy Davies yn parhau yn eu swyddi am flwyddyn arall</p>
Dyddiad y Penderfyniad	Ni wnaed penderfyniad

27. Arwisgo Cymar y Maer

Penderfyniad	Cyhoeddodd y Maer oedd yn ymadael, Y Cynghorydd William Kendall ei bod yn bleser ganddo gadarnhau David Griffiths fel Cymar y Maer newydd.
Dyddiad y Penderfyniad	Ni wnaed penderfyniad

28. Arwisgo Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2024/2025

Penderfyniad	<p>Cadarnhaodd y Maer oedd yn ymadael, Y Cynghorydd William Kendall bod y Cyngor yn gynharach wedi cymeradwyo enwebu'r Cynghorydd Huw David fel Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer blwyddyn 2024-2025. Gan hynny fe wahoddodd Y Cynghorydd David i dderbyn y cynnig hwn o swydd.</p> <p>Yn y man, derbyniodd Y Cynghorydd David y cynnig o Ddirprwy Faer gyda phleser mawr, gan ychwanegu ei fod yn edrych ymlaen at gefnogi'r Maer oedd newydd ei hethol, Y Cynghorydd Heather Griffiths, yn y rôl anrhydeddus a roddwyd iddo.</p>
Dyddiad y Penderfyniad	Ni wnaed penderfyniad

29. Arwisgo Cymar y Dirprwy Faer

Penderfyniad	Cyhoeddodd y Maer oedd yn ymadael, Y Cynghorydd William Kendall na fyddai gan y Dirprwy Faer newydd Gymar ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod.
Dyddiad y Penderfyniad	Ni wnaed penderfyniad

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen [hon](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 17:45.